27/03/20

Annwyl riant/warcheidwad,

Rydych wedi eich adnabod fel rhiant/gwarcheidwad cymwys i dderbyn gofal yn ein hysgolion yn sgil Pandemic COVID-19. **Fodd bynnag, rydym yn pwysleisio y dylai pob rhiant sydd yn y categori gweithwyr 'allweddol' wneud pob ymdrech i sicrhau gofal i'w plant yn eu cartrefi yn hytrach na defnyddio ysgolion, a chyda hynny er mwyn cadw'r niferoedd o blant sydd yn ein hysgolion mor isel â phosib'.** Wedi dweud hynny, os nad ydych yn gallu gwneud trefniadau eich hunain ar gyfer gofalu amdanynt gartref, yna bydd darpariaeth gofal mewn ysgol ar gael i chi.

Yn sgil cyfnod estynedig yr argyfwng COVID-19, rydym angen rhagweld beth yw'r niferoedd tebygol o blant fydd angen derbyn gofal mewn ysgol dros gyfnod y gwyliau Pasg swyddogol, sef o 6 Ebrill – 17 Ebrill yn y lle cyntaf er mwyn i ni allu cynllunio'r ddarpariaeth ar eich cyfer.

Gofynnir i chi nodi enw'r ysgol, ynghyd ag enw(au)'r plentyn/plant yn y tabl isod, gan roi tic yn y blwch cynradd, uwchradd ac/neu arbennig perthnasol.

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ysgol | | | | | | | |
| | | | ✓ | | ✓ | | ✓ |
| Enw Plentyn 1 | | Cynradd | | Uwchradd | | Arbennig | |
| Enw Plentyn 2 | | Cynradd | | Uwchradd | | Arbennig | |
| Enw Plentyn 3 | | Cynradd | | Uwchradd | | Arbennig | |
| Enw Plentyn 4 | | Cynradd | | Uwchradd | | Arbennig | |

Gofynnir i chi nodi ar y calendr isod pa ddyddiau (Llun-Gwener) y byddwch angen y ddarpariaeth ofal, gan nodi nifer y plant fydd angen mynychu'r ddarpariaeth gyferbyn â bob diwrnod:

| Dydd Llun,<br>6 Ebrill | Dydd Mawrth,<br>7 Ebrill | Dydd Mercher,<br>8 Ebrill | Dydd Iau,<br>9 Ebrill | Dydd Gwener,<br>10 Ebrill |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| Dydd Llun,<br>13 Ebrill | Dydd Mawrth,<br>14 Ebrill | Dydd Mercher,<br>15 Ebrill | Dydd Iau,<br>16 Ebrill | Dydd Gwener,<br>17 Ebrill |
| | | | | |

Enw Rhiant/Gwarcheidwad ______________________________________________________

Llofnod Rhiant/Gwarcheidwad ______________________________________________________

Bydd yr wybodaeth a gyflwynir gennych o gymorth i ni ddarparu'r gofal yn unol â'r galw dros yr wythnosau nesaf.

Gofynnir i chi gyflwyno'r wybodaeth i'r ysgol **erbyn 5:00y.h. ddydd Llun, 30 Mawrth.**